# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 31 Mawrth 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Diogelwch Cymunedol

**C10 David Melding:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn bwriadu'u rhoi ar waith i wella diogelwch cymunedol i drigolion Canol De Cymru? (OAQ33673)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr ydym yn cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol i weithredu strategaethau sy'n helpu i adeiladu cymunedau mwy diogel ar draws Canol De Cymru. Fe'u cefnogir gan gyllid sylweddol o'r Cynulliad ac o'r Swyddfa Gartref.

### Perthi Uchel

**C11 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith perthi uchel ar gymdogaethau? (OAQ33732) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Gall perthi uchel gael nifer o effeithiau positif ar gymdogaeth, er enghraifft, drwy weithredu fel hidlyddion llwch a thywydd, annog bywyd gwyllt a darparu preifatrwydd a diogelwch. Dengys profiad, fodd bynnag, eu bod yn medru cael effeithiau negyddol hefyd.

### Tai Fforddiadwy

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gamau i ddarparu tai fforddiadwy yng Nghymru? (OAQ33740)

**Edwina Hart:** Dylai'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol ddarparu oddeutu 1,000 o anheddau ychwanegol yn 2003-04, gan gynnwys y rhai a ddarperir drwy'r cynllun prynu cartref. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o bobl sydd eisiau tai fforddiadwy yn cael mynediad i'r rhaglen naill ai gyda chymorth budd-dâl tai yn y sector breifat, neu drwy denantiaeth am landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n bodoli eisoes neu drwy stoc awdurdod lleol.

### Tai Fforddiadwy

**C13 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dai fforddiadwy? (OAQ33716)

**Edwina Hart:** Amlygwyd safbwynt Llywodraeth y Cynulliad yn y ddwy ddadl a gynhaliwyd ar 16 Mawrth. Nid oes gennyf ragor i'w ddweud am y cynnig a dderbyniwyd yn y ddadl plaid leiafrifol ar dai fforddiadawy.

### Cyllid Sector Gwirfoddol

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian y mae'r Cynulliad yn ei roi i'r sector gwirfoddol? (OAQ33733)

**Edwina Hart:** Ym Medi 2003, cyhoeddais gomisiwn annibynnol i adolygu cynllun y sector gwirfoddol.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ33784) yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Eiddo Deallusol Cymru

**C8 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Eiddo Deallusol Cymru? (OAQ33666)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Menter cefnogi busnes ac ymchwil yw ED Cymru, sydd â'i chartref yn adran y gyfraith, Prifysgol Cymru Abertawe. Cydnabuwyd y fenter cefnogi busnes gan Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd fel enghraifft 'gyda'r gorau yn y byd' o arfer gorau wrth gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint.

### Cyllideb Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**C9 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newidiadau i'r Gyllideb Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yng Nghyllideb Atodol y Cynulliad? (OAQ33702)

**Andrew Davies:** Croesawaf gyllideb atodol y Cynulliad, sydd wedi darparu £32 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2005-06 a 2006-07 ar gyfer datblygu economaidd a thrafnidiaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol. Cylchredwyd tablau a nodiadau esboniadol, sydd yn nodi'r holl newidiadau, i Aelodau'r Cynulliad yn gynharach y mis hwn.

### Caerdydd fel Gyrchfannau i Ymwelwyr

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaethau i hyrwyddo Caerdydd fel un o'n prif gyrchfannau i ymwelwyr? (OAQ33660)

**Andrew Davies:** Mae gan Gyngor Sir Caerdydd y prif gyfrifoldeb am farchnata Caerdydd fel cyrchfan dwristiaeth. Mae'r ddinas yn cael budd o ystod eang o fentrau a strategaethau, sydd yn cynnwys nifer o bartneriaethau.

### Gwasanaethau Bysiau yn Nwyrain De Cymru

**C11 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau bysiau yn Nwyrain De Cymru? (OAQ33687)

**Andrew Davies:** Mae bysiau yn ganolog i gyflawni system drafnidiaeth effeithlon ac integredig i Gymru, fel yr eglurir gan lywodraethau lleol yn eu strategaethau bysiau, sy'n ffurfio rhan o'u cynlluniau trafnidiaeth leol. Bydd Dwyrain De Cymru yn derbyn bron i £1.6 miliwn o'r £8.8 miliwn o grant gwasanaethau trafnidiaeth leol y byddwn yn dyrannu ym 2004-05, gan ategu gwariant llywodraethau lleol eu hunain ar wasanaethau bysiau sy'n derbyn cymhorthdal. Yn ogystal, bydd yr ardal yn derbyn £2 miliwn mewn grant trafnidiaeth i helpu mentrau sy'n ymwneud â bysiau o fewn pecynau trafnidiaeth integredig. Mae ein cynllun tocynnau mantais bws hefyd wedi galluogi gweithredwyr i fuddsoddi mewn bysiau mwy newydd a hygyrch.

## Ffigyrau Diweddaraf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth

**C12 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffigyrau diweddaraf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth i Gymru? (OAQ33752) [W]

**Andrew Davies:** Y ffigurau mwyaf diweddar yw'r rhai ar gyfer 2001. Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £11,379 yw'r gwerth ychwanegol crynswth y pen yng Nghymru, sef 78.9 y cant o gyfartaledd y DU. Mae ystadegau a gyhoeddwyd gan Eurostat yn dangos bod CMC y pen yng Nghymru yn 83.0 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd o 15 aelod-wladwriaeth yn 2001.

## Arian Amcan 1 yn Islwyn

**C13 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arian Amcan 1 yn Islwyn? (OAQ33802)

**Andrew Davies:** Mae'r data ar gynnydd y rhaglen Amcan 1 ar gael ar lefel partneriaethau lleol—mae partneriaeth Caerffili yn cynnwys Islwyn. Hyd at ddiwedd Ionawr 2004, ymrwymwyd dros £20 miliwn o arian Amcan 1 i 53 prosiect lleol, gyda buddsoddiad prosiect lawn o dros £49 miliwn. Mae yna hefyd dros 200 prosiect sy'n cael eu cefnogi gan bartneriaethau eraill a fydd yn cael effaith yn ardal bartneriaeth leol Caerffili.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ33789) yn ôl.*

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ33771) yn ôl.*